Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
—
Legislation, Justice and Constitution Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Pippa Cotterill
RCSLT Cymru
Tŷ Trafnidiaeth
Caerdydd CF11 9SD

21 Gorffennaf 2021

Annwyl Ms Cotterill

**Rhaglen waith**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 5 Gorffennaf 2021 ar ran Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith yn codi'r posibilrwydd o gynnal ymchwiliad byr i anghenion pobl ifanc yn yr ystâd cyfiawnder ieuenctid o ran lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Gwnaethom drafod eich llythyr yn ein cyfarfod ar 12 Gorffennaf a chytuno i ystyried cynigion ar gyfer gwaith yn y dyfodol fel rhan o'n cynllunio strategol yn nhymor yr hydref.

Ers y cyfarfod hwnnw, mae'r Pwyllgor Busnes wedi ysgrifennu atom yn nodi lle y dylai'r cyfrifoldeb am gyfiawnder fod yn strwythur Pwyllgorau'r Senedd. Mae wedi dweud y dylai materion polisi cyfiawnder lefel uchel, megis datganoli cyfiawnder a phlismona, a materion sy'n ymwneud â deddfu, ddod o fewn ein cylch gwaith ni. Dylai materion eraill sy'n ymwneud â chymhwyso cyfiawnder yn ymarferol fod yn agored i waith craffu gan Bwyllgorau eraill y Senedd, gan gynnwys y rhyngweithiadau polisi ehangach presennol â'r system gyfiawnder a phlismona.

Byddwn yn ystyried gohebiaeth y Pwyllgor Busnes ddechrau mis Medi wrth lunio ein rhaglen waith am y flwyddyn gyntaf. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl i'r rhaglen ganolbwyntio'n helaeth ar graffu deddfwriaethol yng ngoleuni'r rhaglen ddeddfwriaethol a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru.

Ysgrifennaf eto yn yr hydref ar ôl i ni benderfynu'n derfynol ar ein rhaglen ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd